Munud i Feddwl

Af-, ân-, ang- ...



Mae'n rhyfedd sut mae rhai pethau yn gallu mynd yn boen i ddyn! Wrth ddarllen llyfr yn ddiweddar, a'r awdur ynddo'n ymdrin yn fedrus-gall â'r gwahanol ffyrdd y gall Cristion ddathlu ei ffydd, a thystio i'w Arglwydd mewn diwylliant aml-ffydd, sylwais yn sydyn ar dueddiad yr awdur i sôn am '*non-Christians'*. Wedi dechrau sylwi ar hun o dueddiad, daeth darllen y llyfr da hwn yn dreth arnaf wrth weld enghraifft ar ôl enghraifft o hyn: "*Richard comes from a non-Christian family...*; *the followers of non-Christian religions...*; *Christian diaolgue with non-Christians*." Wedi i mi gyrraedd y cyflwr o fethu peidio sylwi ar bob un tro y defnyddiwyd yr ymadrodd anffodus hwn gan yr awdur, mi osodais y llyfr o'r neilltu. (Llun: Crefyddau '*non-Christian*')

Mi wn fod yr ymadrodd yn gwbl gywir. Nid yw'r Mwslim yn Gristion, felly '*non-Christian'* ydyw, a'r un modd yr Iddew. Ond, os bosib, mae gwell ffordd i sôn am y rheini sydd yn credu'n wahanol i ni! Wedi'r cyfan: Annibynnwr ydwyf, nid Anfedyddiwr! Eglwys Annibynnol yw Eglwys Minny Street nid Eglwys Afbresbyteraidd! (Llun: Gwersyll Dachau, Yr Almaen)

Beth yw '*non-Christian"*? Un nad sydd wedi derbyn Iesu'n Arglwydd ar ei fywyd? Un nad sydd wedi ei fedyddio? Un nad sydd yn gyson fynychu lle o addoliad? Beth bynnag ydyw, does dim ots! Wrth ei alw'n '*non-Christian'* cyhoeddir nad oes y tamaid lleiaf o ddiddordeb gennym yr hyn ydyw, boed yn Fwslim neu'n Iddew, yn Anffyddiwr pybyr neu'n Anghredadun diog; tal, byr, hapus, trist, cyfoethog, tlawd - haws gennym ei ddiffinio yn ôl ei berthynas â Christnogaeth - '*non-Christian'* ydyw.

Mae'r ymadrodd '*non-Christian'* yn labeli person yn ôl yr hyn nad ydyw, yn hytrach na'r hyn ydyw. Mae'r label '*non-fat milk'* yn dweud rhywbeth wrthym am y llaeth yn yr oergell. Trwy ryw ryfedd a dirgel ffyrdd tynnwyd y braster ohono er lles y rheini ohonom sy'n ymwybodol o orthrwm trwm ein colesterol! Ond nid peint o laeth yw person! Nid yw person yn cael ei gynhyrchu a'i brosesu mewn ffatri! Cwbl unigryw ydym, pawb ohonom, a phawb yn ddiwahân, yn haeddu cael ei adnabod a'i barchu am yr hyn ydyw. (Llun: Gwersyll Leipzig, Yr Almaen)

Wrth sôn am bobl yn nhermau'r hyn nad ydynt, yr ydym yn ymdrin â hwy fel rhywbeth nad sy'n berson. Nid oes iechyd yn y ffordd hon o siarad - crëir poen, magir cynnen ganddo. Onid cam

bychan sydd rhwng deall person yn nhermau'r hyn nad ydyw, ac ymwneud â'r person hwnnw fel llai na pherson? Hawdd llithro o '*non-Christian'* i '*non-person'*! (Llun: Ffwrneisiau (*Kreme II*) Auschwitz allan o *Auschwitz: Techniques and operation of the gas chambers* gan J C Pressoc 1989. Ymddiridolaeth Beate Klarsfled.)



Heddiw, ar **Ddiwrnod Cofio'r Holocost**, mynnwn gofio mae dyna'n union a ddigwyddodd yn hanes yr Iddew. Bu Gristnogaeth ar hyd y canrifoedd yn deall yr Iddew yn nhermau'r hyn nad ydoedd - nid Cristion mohono. O'r herwydd, datblygodd agwedd meddwl cwbl wyrgam; dechreuodd Cristnogion ymwneud â'r Iddew nid fel person ond fel creadur - rhywbeth esgymun a pheryglus. Cofiwn heddiw, bod yna gysylltiad rhwng y grefydd Gristnogol a chreulondeb mileinig Hitler. Bu agwedd elyniaethus yr Eglwys tuag at yr Iddew ar hyd y canrifoedd yn sylfaen ddelfrydol i ddeddfau erchyll y Natsïaid; a heb os, buasai tynged Iddewon Ewrop wedi bod yn dra gwahanol pe bai dilynwyr Crist ledled y byd wedi codi llais i wrthwynebu syniadau gwallgof Hitler o 1933 ymlaen.

Fel pobl Crist heddiw, yn eglwysi ac yn enwadau, mae peidio oedi heddiw - mae dewis peidio cofio - heddiw yn afresymol, yn anfoesol ... ac yn anghristnogol. *OLlE*

27 Ionawr 2012